Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amrywiaeth a chynhwysiant mewn pleidiau gwleidyddol

## Beth ydych chi'n ei feddwl am ein canllaw i gefnogi pleidiau i fod yn fwy amrywiol?



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad ar Ganllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Pleidiau Gwleidyddol Cofrestredig**'.

**Tachwedd 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 29**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig

**E-bost:** DiwygiorSenedd@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Ffotosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y canllaw amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ........ 4**

**Pam ydyn ni'n gwneud y canllawiau yma? ........ 7**

**Mwy am y canllaw ........ 10**

**Cwestiynau ........ 14**

Cwestiynau am Rhan 1 ........ 14

Cwestiynau am Rhan 2 ........ 17

Cwestiynau am Rhan 3 ........ 19

Cwestiynau am yr iaith Gymraeg ........ 21

Unrhyw beth arall ........ 22

Amdanoch chi ........ 23

**Sut i ymateb ........ 25**

**Geiriau Anodd ........ 29**

# Am y canllaw amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol




Mae deddf newydd wedi dod allan o’r enw **Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024**.



Mae rhan o hyn yn ymwneud â Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i **bleidiau gwleidyddol** yng Nghymru am **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.



Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.

Fe fyddai hyn yn cynnwys:




- Gwneud cynlluniau am **amrywiaeth** a **chynhwysiant** ar gyfer holl etholiadau Cymru.



- **Cyhoeddi** gwybodaeth am **amrywiaeth** yn ymwneud â:
  - Ymgeiswyr etholiad y Senedd,
  - ac Aelodau etholedig o'r Senedd.



Mae **cyhoeddi** yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd.



Mae **ymgeisydd** yn berson sy'n sefyll etholiad, maen nhw'n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.



Meddwl sut y dylai'r Senedd fod yn **gytbwys o ran rhywedd**. Mae hyn yn meddwl bod angen cael mwy o fenywod yn y Senedd gan mai menywod yw hanner poblogaeth Cymru.




Mae fersiwn hawdd ei ddeall llawn o'r canllaw yma: [www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig](www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig)



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y canllaw. Darllenwch y canllaw yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma.



Fe fyddwn ni yn gwrando ar beth mae pobl yn feddwl ac yna'n **cyhoeddi'r** canllaw terfynol cyn 1 Mai 2025.

# Pam ydyn ni'n gwneud y canllawiau yma?



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl o bob rhan o gymdeithas yn cael eu gweld a'u clywed. Mae rhai grwpiau'n cael eu gadael allan, oherwydd:

- Oed.
- Anabledd.
- Hil.
- Crefydd neu gred.
- Rhyw.
- Cyfeiriadedd rhywiol – at bwy rydych yn cael eich denu.
- **Statws** neu **hanes traws** (gan gynnwys **ailbennu rhywedd**) - mae hyn am sut mae rhywun yn nodi beth ydy eu rhywedd ac mae'n wahanol i'w genedigaeth.
- O ble rydych chi'n dod, a pha gyfleoedd oedd ar gael yn eich ardal i gael gwasanaethau da, addysg a chyflogaeth.
- Cyflyrau iechyd.
- Profiad gwleidyddol blaenorol.
- Cyfrifoldebau gofalu.
- Cyfrifoldeb rhieni.
- Iaith.


Hawdd ei Ddeall

Amrywiaeth a chynhwysiant mewn pleidiau gwleidyddol

Canllaw beth mae pleidiau gwleidyddol yn gallu ei wneud i wella amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd.

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Canllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant Drafft ar Gyfer Pleidiau Gwleidyddol Cofrestredig**'.

**Tachwedd 2024**

Mae'r canllawiau'n gofyn i **bleidiau gwleidyddol** feddwl am y grwpiau yma wrth:

- gwneud cynlluniau,
- a chasglu gwybodaeth am **amrywiaeth**.



Mae'n bwysig iawn bod **pleidiau gwleidyddol** yn cynrychioli holl bobl Cymru.



Mae hyn yn meddwl y dylai **pleidiau gwleidyddol** gynnwys pobl o'r grwpiau yma.



Mae pobl o'r grwpiau yma yn aml yn ei chael hi'n fwy anodd sefyll mewn etholiadau. Oherwydd pethau fel:

- Cael eu trin yn annheg.
- Dim yn cael eu cefnogi.



Mae'r canllaw yn cefnogi **pleidiau gwleidyddol** i wneud yn siŵr bod pobl o'r grwpiau hyn yn gallu cymryd rhan lawn.



Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r system bleidleisio i ethol Aelodau i'r Senedd. Fe fydd rhain yn cael eu cynnal o 2026.



O dan y drefn newydd fe fydd gwell siawns i **bleidiau gwleidyddol** gyflwyno **ymgeiswyr amrywiol**.




Ar hyn o bryd, does dim ffordd safonol o gasglu gwybodaeth am **amrywiaeth**:

- Ymgeiswyr y Senedd,
- neu Aelodau o'r Senedd.



Rydyn ni'n credu bod angen i **bleidiau gwleidyddol** gasglu a rhannu mwy o wybodaeth.

# Mwy am y canllaw




Mae'r canllaw wedi'i rannu'n 3 rhan.




### Rhan 1

Mae hyn am gefnogi **pleidiau gwleidyddol** i wneud cynlluniau am **amrywiaeth** a **chynhwysiant** ar gyfer holl etholiadau Cymru.

Dylen nhw feddwl am bethau fel:



- Dysgu gan wahanol grwpiau o bobl, ac o ymchwil ac adroddiadau. Helpu i roi cynllun at ei gilydd.



- Edrych ar **amrywiaeth** a **chynhwysiant** o fewn y blaid nawr.



- Gwneud yn siŵr bod y ffyrdd maen nhw yn gweithio ac yn recriwtio **ymgeiswyr** yn **gynhwysol**.

Y gwahaniaethau mae’r pethau yma yn gallu eu gwneud:



- Dangos ymrwymiad **plaid wleidyddol** i **amrywiaeth**.



- Dangos mai nhw sy’n gyfrifol.




- Dangos eu bod yn deall anghenion mwy o bobl.



- Gwella’r gweithle.



- Dangos gwerthoedd cryf.



## Rhan 2

Mae hyn am gasglu a **chyhoeddi gwybodaeth** am **amrywiaeth** am ymgeiswyr etholiad y Senedd.



Mae'r canllaw yn sôn am sut i gasglu gwybodaeth am **ymgeiswyr**.




Mae hefyd yn rhoi arolwg mae **pleidiau gwleidyddol** yn gallu ei ddefnyddio i gasglu'r wybodaeth maen nhw ei angen.

## Rhan 3



Mae’r adran yma am sut i gael cydbwysedd yn **y Senedd o ran rhywedd**. Mae hyn yn meddwl bod angen cael mwy o fenywod yn y Senedd gan mai menywod yw hanner poblogaeth Cymru.



Mae hefyd yn sôn am fanteision gwneud hyn.



Mae’n dweud sut ddylai **pleidiau gwleidyddol** feddwl am sut i gynyddu nifer y menywod.

# Cwestiynau



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y canllaw. Atebwch y cwestiynau yma a'u dychwelyd erbyn **7 Ionawr 2025**.

Cysylltwch ar DiwygiorSenedd@llyw.cymru erbyn **20 Tachwedd 2024** os hoffech fod yn rhan o ddigwyddiad ymgynghori ar y canllaw yma.



## Cwestiynau am Rhan 1

**1. Ar dudalen 13 fe wnaethon ni siarad am y grwpiau o bobl rydyn ni'n credu sydd angen eu cynnwys mwy.**

**Beth yw eich barn ar y rhestr yma?**




**2. Ar dudalen 14 i 21 roedden ni'n siarad am y camau mae pleidiau yn gallu eu cymryd i wella amrywiaeth a chynhwysiant. Er enghraifft, gwneud cynlluniau yn seiliedig ar ymchwil.**

**Ydych chi'n cytuno â'r camau yma?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf



**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno yn y blwch isod.**



3. **Oes unrhyw beth arall y dylai pleidiau gwleidyddol ei wneud i wella amrywiaeth a chynhwysiant?**

# Cwestiynau am Rhan 2




**4. Ar dudalen 22 roedden ni'n sôn am gasglu gwybodaeth drwy arolwg.**

**Mae templed arolwg yn y Canllaw ar dudalen 27.**

**Beth ydych chi'n ei feddwl o'r templed arolwg?**



5. **Ydych chi'n credu y bydd y canllaw yn helpu pleidiau gwleidyddol i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth?**

   **Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n meddwl hyn.**

## Cwestiynau am Rhan 3



6. Ydych chi'n credu y bydd y canllaw yn helpu pleidiau gwleidyddol i gael mwy o ymgeiswyr benywaidd?

   Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n meddwl hyn.



7. **Oes unrhyw beth arall rydych chi'n credu y gallen nhw wneud i wella hyn?**

## Cwestiynau am yr iaith Gymraeg




8. Ydych chi'n meddwl y bydd y canllaw yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg?



9. Beth sydd yn gallu cael ei wneud i wella'r canllaw i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn deg gyda'r Saesneg? Neu yn cael effeithiau positif ar y Gymraeg?

## Unrhyw beth arall



**10. Oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y canllaw?**

# Amdanoch chi




**Enw:**



**I bwy rydych chi'n gweithio, os ydych chi'n ateb ar ran sefydliad:**




**Ydych chi neu'ch sefydliad wedi'ch lleoli yng Nghymru?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw




Fe fyddwn ni yn gwneud adroddiad am atebion pobl.



Fe fyddwn ni yn **ei gyhoeddi** ar-lein.




Os nad ydych chi eisiau i’ch enw gael ei gynnwys, ticiwch yma: ☐

# Sut i ymateb

Rydych chi'n gallu:




- Llenwi ein ffurflen ar-lein: https://www.llyw.cymru/canllawiau-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig



- Lawrlwytho, llenwi ein ffurflen ymateb ac e-bostio: DiwygiorSenedd@llyw.cymru

  Ysgrifennwch '**ymgynghoriad ar ganllawiau amrywiaeth**' yn y llinell bwnc.



- Lawrlwytho, llenwi ein ffurflen ymateb, ei hargraffu a'i phostio at:

  Ymgynghoriad ar ganllawiau amrywiaeth

  Is-adran Diwygio'r Senedd

  Llywodraeth Cymru

  Parc Cathays

  Caerdydd

  CF10 3NQ





Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn deddf o'r enw **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU).**



Bydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.



Weithiau byddwn yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddant yn gweld eich gwybodaeth hefyd.




Fel arfer, rydym ni'n cyhoeddi adroddiad sy'n dangos beth ddywedodd pobl.




Weithiau mae hyn yn golygu bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthym ni os nad ydych am i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad, gallai'r wybodaeth fod ar gael am amser hir.




Rydyn ni ond yn cadw gwybodaeth sydd heb ei gyhoeddi am 3 blynedd.

Mae deddfau diogelu data yn rhoi hawl i chi:




- Wybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a sut y gallwch ei weld.
- Wneud inni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch chi.
- Ofyn inni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Ofyn inni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud yr wybodaeth amdanoch chi i rhywle arall mewn rhai achosion.
- Gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei gadw a'i ddefnyddio cysylltwch gyda ni ar:



Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**E-bost**: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru



Gallwch hefyd gysylltu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



**Ffôn**: 01625 545745 or 0303 123 1113




**Gwefan**: https://cy.ico.org.uk

# Geiriau Anodd

### Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac mae ganddyn nhw anghenion gwahanol.

### Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl bod unrhyw un yn gallu cymryd rhan a chael cyfle teg.

### Cyhoeddi

Mae cyhoeddi yn meddwl rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd.

### Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sydd â syniadau tebyg am sut i redeg gwlad.

### Ymgeisydd

Mae ymgeisydd yn berson sy'n sefyll etholiad, maen nhw'n gofyn i bobl bleidleisio drostyn nhw.